# Y Cynnig Gofal Plant i Gymru – Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol Newydd

## O haf 2022 ymlaen bydd y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru yn gweithredu'n ddigidol!

**Mae gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac yn cael ei roi ar brawf gan awdurdodau lleol, darparwyr gofal plant a rhieni.**

### Beth yw goblygiadau hyn i ddarparwyr gofal plant?

Os ydych chi'n ddarparwr gofal plant sy'n cynnig oriau o dan y Cynnig ar hyn o bryd, neu os ydych yn dymuno cychwyn gwneud hynny o hydref 2022, tua dechrau 2022 bydd angen i chi gofrestru ar-lein â gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant i Gymru.

Bydd rhieni yn gwneud cais am y Cynnig ar-lein drwy'r gwasanaeth digidol cenedlaethol yn ystod haf 2022 yn barod i'w plentyn ddechrau manteisio arno ym mis Medi.

Mae adnodd Cwestiynau Cyffredin i ddarparwyr ar gael i'ch helpu.

Mae'r adnodd i'w weld ar yma a bydd yn cael ei ddiweddaru wrth inni gael rhagor o wybodaeth i'w rhannu â chi.

Bydd **manteision** y Gwasanaeth newydd yn cynnwys:

- un gwasanaeth cenedlaethol syml y bydd holl awdurdodau lleol Cymru yn ei ddefnyddio, gan sicrhau bod rhieni a darparwyr gofal plant yn cael profiad cyson
- bydd ar gael drwy ffonau symudol, gliniaduron a llechi
- bydd yn gwbl ddwyieithog
- bydd data yn ddiogel
- bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud taliadau yn gyflym ac yn rheolaidd yn uniongyrchol i ddarparwyr gofal plant

Darparwyr Gofal Plant – i gael mwy o wybodaeth am Gynnig Gofal Plant Cymru, **cliciwch yma.**

### Sgiliau digidol

I helpu darparwyr gofal plant a staff i fagu hyder a pharatoi ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Cymunedau Digidol Cymru i lunio a recordio hyfforddiant i gynyddu hyder ynghylch gwasanaethau ar-lein a gwella sgiliau digidol.

Bydd y canllawiau fideo byr hyn, ar gyfer lefelau sylfaenol a chanolig, yn helpu i roi hwb i'ch hyder. Mae'r pynciau'n amrywio o osod cyfeiriad e-bost a diogelwch ar-lein i greu cyfrif ar Borth y Llywodraeth ac i gadw a lanlwytho dogfennau!

I ddefnyddio'r hyfforddiant ewch i:

**www.digitalcommunities.gov.wales/cy/sgiliau-digidol-hanfodol-ar-gyfer-darparwyr-gofal-plant/**

### Defnyddio'r gwasanaeth newydd

Bydd canllawiau mwy penodol ar sut i ddefnyddio gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd y Cynnig Gofal Plant i Gymru ar gael yn 2022, cyn cyflwyno'r gwasanaeth.

Os hoffech ragor o wybodaeth ar y prosiect digidol neu os hoffech gymryd rhan yn y gwaith o brofi'r gwasanaeth, cysylltwch â thîm y prosiect digidol ar GofalPlant.Digidol@llyw.cymru

